# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 4ydd o Ionawr 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. drwy Zoom yn unig (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Rhys Tudur, Darren Morley, Angela Williams, Margaret Griffith, Gareth O. Davies, Euros Jones, Anwen Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Tegid Jones, Delyth Parry, Miriam Williams a Sion Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Ragfyr 2023.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Rhagfyr 2023** (Cadeirydd yn ei llofnodi ar 06.01.2024 yn dilyn y cyfarfod).

4. **Datgan buddiant personol –**

**Cynghorydd Margaret Griffith** – eitem 21 – cais cynllunio Penbryn, Llangybi – oherwydd ei bod yn perthyn.

**Cynghorydd Angela Williams** – eitem 14a – Cae chwarae Llangybi–cysylltiedig hefo'r person oedd wedi cynnig pris.

**Cynghorydd Rhys Tudur** – eitem 9 - 'Llŷn i gryfhau'r Gymraeg', oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r cais.

5. **Adroddiad Blynyddol – 01.04.2022 – 31.03.2023** – derbyn a diolchwyd i'r Clerc. Bydd yn cael ei osod ar y wefan.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

a) **Rhybudd - Cau'r Ffordd Di-Ddosbarth a adwaenir fel Rhesdai Afonwen, Afonwen**
Gwaith adfer hydrant tân ar ran Dŵr Cymru ar 09.01.2024 rhwng 3-5 diwrnod. **Derbyn**.

b) **Gwaherddir cerbydau modur ac eithrio mynediad arfaethedig – Lôn Fêl, Cricieth - Llun i Gwener – rhwng 8:00 -9.30 y bore a 2.30 – 4:00 y pnawn. -**

Mae Tîm Traffig Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar gynnig i gyflwyno gorchymyn rheoli traffig ar y ffordd uchod.Bwriad y gorchymyn yw gwella diogelwch ffyrdd cyhoeddus ar Lôn Fêl yn enwedig o ran yr ysgol newydd yn yr ardal y flwyddyn nesaf ac annog pobl i ddefnyddio'r prif ffyrdd i gael mynediad i'r ysgol yn hytrach na defnyddio Lôn Fêl, lleihau llygredd annog pobl i gerdded a beicio mwy. Maent yn gobeithio y byddai'r mesur hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon lleol.
Bydd angen sylwadau ynglŷn â'r uchod cyn 11.01.2024. Os na dderbynnir ymateb o fewn yr amser hwn, cymerir yn ganiataol nad oes gwrthwynebiad. **Derbyn**.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

Mae ystyriaethau gwahanol hefo'r ddau gais isod, mae'r ail un (CR) oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig.

a) **Cais Cynllunio rhif: C23/1004/41/LL - Madryn Arms, Chwilog**, - dymchwel cyntedd presennol a'r grisiau dur a chodi estyniad newydd gyda grisiau dur mewn lleoliad gwahanol. **Cefnogi**.

b) **Cais Cynllunio rhif: C23/1005/41/CR - Madryn Arms, Chwilog**, - dymchwel cyntedd presennol a'r grisiau dur a chodi estyniad newydd gyda grisiau dur mewn lleoliad gwahanol. **Cefnogi**

8. **Porth Allanol Timau Tacluso Ardal Ni** - derbyniwyd ebost gan Swyddog Prosiect, Tîm Tacluso Ardal Ni.
Byddant yn anfon e-bost yn fuan at y Clerc gyda linc i Borth Allanol y Timau Tacluso fydd yn ein galluogi i weld cynnydd y timau yn ein ward. Bydd hefyd yn dangos eu ymweliad nesaf yn ein ward, creu ceisiadau am waith a hefyd gadael adborth drwy llenwi'r holiadur. Mae rhoi adborth yn oll bwysig iddynt. Mae modd parhau i gysylltu yn y modd arferol drwy ddilyn y ddolen yma:- http://www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso **Derbyn a nodwyd byddai yn yn fuddiol iawn**.

9. **'Llŷn i gryfhau'r Gymraeg'**.
Derbyniwyd ebost gan Sian Parri ar ran Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog. Mae'n anfon gwybodaeth am bryder mawr am yr iaith Gymraeg ym mhen draw Llŷn, lle mae tri Cyngor wedi dynodi eu hardaloedd yn ardal o arwyddocâd ieithyddol.
Dywedodd "Anfonaf atoch i ofyn yn daer i chwi hefyd ymrwymo i gryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi a thrwy hyn ddangos cefnogaeth i'r tri Cyngor Cymuned Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog sydd am wneud bob ymdrech i sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg.
Os y byddwch yn ymuno mae yna dystysgrif dynodi ynghlwm i'w llenwi, a'i arwyddo. Mae'r tystysgrif i chi ei chadw ond buaswn yn ddiolchgar os y medrwch dynnu llun ffon a'i anfon ataf".
**Cytuno bod y Cadeirydd yn llofnodi'r ddogfen, ac angon copi at Sian Parri, a'i gosod ar wefan y Cyngor.**

**Materion yn y gymuned**.
10. **Llanystumdwy**
**Tir ger y Fynwent** – derbyniwyd gwybodaeth fod y tir wedi cael ei werthu i wr busnes sydd yn gysylltiedig â'r cwmni gwerthu carafannu gerllaw, a bod gwaith clirio wedi dechrau'n barod – sef sŵn llifio coed a mwg tân yn codi o'r safle. Mae pryderon yn yr ardal y bydd carafannau yn cael ei cadw yma. Y Clerc i wneud ymholiadau hefo Adran Gorfodaeth/Cynllunio ac hefyd i dynnu sylw at y ffens fawr sydd wedi ei gosod o amgylch y cae tu nol i Tyn Ffridd, Chwilog.

11. **Rhoslan/Ynys**
Brigau ar hyd y lon yn creu trafferth i gerbydau ger Pant y Rhos ac Ynysheli, Rhoslan. **Y Clerc i dynnu sylw at y mater i Cyngor Gwynedd.**

12. **Chwilog/Llanarmon**
13. **Pencaenewydd/Sardis**
14. **Llangybi**

a) **Cae Chwarae** – wedi derbyn pris i beintio'r offer fel nad ydynt yn rhydu. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau am bris arall.
b) Y Clerc wedi derbyn ebost gan Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri, ac yn cynnwys linc i'r ffurfen gais. Clerc i holi am brisiau eraill ar gyfer cael llawr newydd o dan yr offer.

15. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.12.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **Cegin Gymunedol** - Mae Chwilog yn y broses o gynnal 5 sesiwn misol ar y dydd Gwener olaf bob mis rhwng 10:00 a 12.30, gan gynnig gofod cynnes a phryd o fwyd syml am ddim. Mae Pencaenewydd hefyd wedi cynnal dau sef ar 05.12.2023 a'r 30.12.2023.
Y Clerc wedi holi Un Llais Cymru ac fe ddywedwyd fod angen cofnodi y broses yn llawn, a bod y taliadau yn cael ei gwneud i gymdeithasau hysbys sydd hefo cyfrif banc a chyfansoddiad.
**Yn dilyn cyfarfod mis Rhagfyr penderfynwyd adolygu hyn mis Ionawr 2024, drwy holi faint fuodd yn mynychu y sesiynau, a faint oedd y gost o ddarparu hyn. Cytunwyd i beidio cynnal mwy o sesiynau fel hyn, oherwydd mai ychydig iawn oedd wedi mynychu'r sesiynau, yn enwedig ym Mhencaenewydd, (sef 6 a 4 yr ail dro).**

17. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Mae hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2023 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2024. **Byddant yn cael ei trafod mis Chwefror.**

18. **Praesept** – wedi derbyn ebost gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn am benderfyniad y Cyngor Cymuned ar gyfer praesept 2024/25, **erbyn Dydd Gwener 26ain o Ionawr 2024**.
Cynhaliwyd Cyfarfod Cyllid/Busnes ar 05.10.2023, ac awgrymwyd codi'r praesept o £19,000.00 i £20,000.00. Mae'r Clerc wedi anfon y cofnodion at bawb, a'r ddogfen rhagolwg cyllideb am y flwyddyn 01.04.2024 – 31.03.2025 o flaen cyfarfod mis Rhagfyr. Mae'r Clerc hefyd wedi diweddaru'r rhagolwg cyllid i ddangos mwy o newidiadau, yn sgîl derbyn pris am beintio offer y cae chwarae a chynnydd yng nghyflog y Clerc, a bydd y manylion newydd yma'n cael ei rannu cyn y noson.

**Cytunwyd i gynyddu'r praesept o £19,000.00 i £20,000.00 o 01.04.2024 ymlaen.**

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Wifi Neuadd Chwilog | Taliad rhwng 01.04.23 – 18.12.2023 (£47.15 x 1 mis, a £46.03 x 8 'BT', a £25.99'Plusnet' = £441.38 | **441.38** | | **441.38** | **441.38** |
| Y Ffynnon (M1190) | Hysbyseb Tachwedd a Rhagfyr 2023 | **28.00** | | **28.00** | **28.00** |

20. Cyflog mis Rhagfyr 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol Clerc, Rhagfyr 2023<br>35 awr y mis x £13.73 = £480.55 | 480.55<br>96.12 -llai treth<br>**£384.43** | **384.43** | **384.43** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar gyflog y Clerc Rhagfyr 2023 | 480.60 x 20% =<br>**£96.12** | **96.12** | **96.12** |
| Costau swyddfa'r Clerc Rhagfyr 2023 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr- gyda chaniatâd y Cadeirydd**

**21. Cais Cynllunio rhif: C23/1022/41/LL – Penbryn, Llangybi** – storfa slyri concrid dan gaeadau (45m x 11m x 3 m) i gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. **Cefnogi**.

22. **Llwybr o dan bont Afonwen am y traeth** – mae dwy garreg fawr wedi cael ei symud oddi yno, felly gall cerbydau fynd yno tuag at y traeth. Hefyd mae'r lon wedi malu ac yn edrych fel pebai peiriannau mawr wedi bod yno yn tyllu. **Er bod y man yma yn dod o dan Cyngor Llannor, gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.**

23. **Stad Cae Capel, Chwilog** – nodwyd fod tyllau mawr ger mynedfa y stad. **Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd.**

24. **Stad dai newydd ger Ael y Bryn, Chwilog** – pryder fod baw/pridd ar hyd y lon a'r palmentydd oherwydd fod y tai yn cael ei adeiladu. **Y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd**.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **01.02.2024**, yn Festri Pencaenewydd am 7:00 yr hwyr ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**